OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1774 (Cy.191)

BWYD, CYMRU

Gorchymyn Diogelwch Bwyd (Llongau ac Awyrennau) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	- -	*15 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym	- -	*31 Gorffennaf 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 1(3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diogelwch Bwyd (Llongau ac Awyrennau) (Cymru) 2003; daw i rym ar 31 Gorffennaf 2003 ac mae'n gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn —

mae i "Cymru" yr ystyr a ddarperir ar gyfer "*Wales*" gan adran 155 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**);

mae i "dyfroedd mewnol" yr ystyr a roddir i "*internal waters*" at ddibenion Erthygl 8(1) o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr;

ystyr "y Ddeddf ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "llong neu awyren esempt" ("*exempt ship or aircraft*") yw unrhyw long neu awyren freintrydd sofran neu unrhyw long o Wladwriaeth heblaw'r Deyrnas Unedig sy'n arfer yr hawl i dramwyo'n ddiniwed drwy'r rhan honno o'r môr tiriogaethol o fewn Cymru ystyr "llong neu awyren freintrydd sofran" ("*sovereign immune ship or aircraft*") yw unrhyw

long neu awyren sy'n perthyn i Wladwriaeth heblaw'r Deyrnas Unedig na chaiff ei defnyddio at ddibenion masnachol;

(**1**) 1990 p.16. Trosglwyddwyd swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

(**2**) 1998 c. 38.

ystyr "llong sy'n mynd tuag adref" ("*home-going ship*") yw llong sy'n ymwneud yn unig â'r canlynol —

(a) mynd a dod ar ddyfroedd mewnol, neu

(b) teithiau nad ydynt yn hwy na diwrnod, sy'n dechrau ac yn gorffen ym Mhrydain Fawr ac nad ydynt yn golygu galw yn unlle y tu allan i Brydain Fawr;

mae i'r "môr tiriogaethol" yr ystyr a roddir i "*territorial sea*" at ddibenion Deddf Môr Tiriogaethol 1987(**3**);

ystyr "y prif ddarpariaethau Rheoli Hylendid a Thymheredd" ("*the principal Hygiene and Temperature Control provisions*") yw —

(a) Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) 1995(**4**) ac eithrio rheoliad 4A o Atodlen 1A i'r Rheoliadau hynny (trwyddedau i siopau cigyddion);

(b) Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Rheoli Tymheredd) 1995(**5**) ac eithrio rheoliadau 4 — 9 a 12 a Rhan III o'r Rheoliadau hynny.

mae i "tramwyo'n ddiniwed" yr ystyr a roddir i "*innocent passage*" at ddibenion Rhan II Adran 3A o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr.

Mae llongau ac awyrennau yn fangreoedd at ddibenion penodedig

3. Mae "mangreoedd" yn cynnwys unrhyw long neu awyren o ddisgrifiad a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at unrhyw ddiben a bennir mewn perthynas â'r llong neu'r awyren honno yn yr Atodlen honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

D.Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

15 Gorffennaf 2003

(**3**) 1987 p.49.
(**4**) O.S. 1995/1763 fel y'i diwygiwyd gan OS 1995/2148, 1995/3205, 1996/1699, 1997/2537, 1998/994, 1999/1360, 1999/1540, 2000/656 ac yn benodol gan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Diwygio) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/3341 (Cy. 219)).
(**5**) O.S. 1995/2200 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/3205, 1996/1499, 1998/994, 1998/1398 a 2000/656.